

Yn y Cynllun Datblygu Lleol ac yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Drafft y Gymuned a'r Gymraeg mae'r cyngor yn cydnabod fod gostyngiad wedi bod yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ôl canlyniadau'r ddau Gyfrifiad diwethaf. Mae'n cydnabod hefyd bod canran sylweddol ym mhob ward yn dal i siarad Cymraeg a bod y Gymraeg yn rhan bwysig o nifer helaeth cymunedau'r sir. Mae hon yn ffactor bwysig i'w hystyried.

I ymateb i bwyntiau penodol:

Polisi DM01

Er bod Polisi DM01 Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Iaith Gymraeg yn rhan o Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion petai'r Cynllun yn seiliedig ar anghenion am dai – o ran niferoedd a lleoliad y tai hynny, ni fyddai angen polisi o'r fath.

Mae'r un peth yn wir am bwynt 2.5.2 yn y Canllawiau dan sylw. Mae'n nodi rhai ardaloedd penodol ble mae angen mwy o ofal ac ystyriaeth, datblygu fesul cyfnod yw'r argymhelliad. Eto dylai tai fydd yn cael eu codi fod ar sail yr angen amdanynt.

Asesiadau Effaith

Mae pwynt 2.6.1 yn y Canllawiau yn nodi achosion pan fydd angen asesiad o effaith datblygiad ar y Gymraeg, ond dylid ystyried yr effaith ar y Gymraeg wrth ymdrin â phob cais cynllunio sydd yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol a phob cais ychwanegol i hynny.

Mae'n ymddangos mai datblygiadau ychwanegol i'r Cynllun Datblygu Lleol sydd yn berthnasol yma ond nid yw'n hollol glir pa asesiad sydd wedi ei wneud o effaith y datblygiadau yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Gymraeg.

Holiadur Asesiad o Effaith Gymunedol ac Ieithyddol

Er bod yr Holiadur Asesiad o Effaith Gymunedol ac Ieithyddol yn adran 2.13 yn rhoi ystyriaeth i fewnfudo, allfudo, Y Gymraeg a gwasanaethau allweddol yn y gymuned leol a sirol mae'n bryder mai'r sawl sydd yn gwneud cais/y datblygwr sydd yn cwblhau'r asesiad. Mae disgwyl yma fod digon o wybodaeth ac arbenigedd, ac yn dibynnu ar y sawl sy'n gwneud y cais i fod yn ddiduedd a gwrthrychol; mae hyn yn anodd gan fod buddiant ganddynt.

Dylai asesiadau effaith iaith fod yn cael eu gwneud gan drydydd parti, niwtral a chymwys – gallai'r cyngor sir ei hun ddarparu rhestr o bobl cymwys allai wneud.

Mae'n ymddangos hefyd mai i ddatblygiadau ychwanegol i'r Cynllun mae'r holiadur yn berthnasol – ac eto nid yw'n glir a ydy datblygiadau sy'n rhan o'r Cynllun wedi bod drwy'r broses yma.

Petai datblygiadau ar sail angen lleol – o ran nifer a lleoliad, ni fyddai'r holiadur hwn yn berthnasol nac y angenrheidiol.

Cymdeithas yr Iaith, rhanbarth Ceredigion
8fed o Ebrill, 2015